

# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020

Olrhain camau gweithredu Llywodraeth Cymru i wella hawliau menywod a chydaddoldeb rhywiol





# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020

---



## RHAGAIR

Mae ein Cerdyn Sgorio Ffeministaidd 2020 yn dangos y cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at wneud cydraddoldeb rhywiol yn realiti yng Nghymru ers 2019. Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi gwneud datblygiadau, er enghraifft dod i ben â thrais yn erbyn menywod, ac o ran cyllid teg sydd wedi golygu symud o goch i oren. Mae'r holl feysydd eraill wedi'u graddio'r un fath o hyd gan nad oes gwelliannau mawr wedi bod o ran canlyniadau. Ein casgliad ar hyn, yw y gwelwyd llawer o eiriau cadarnhaol ond prin y bu'r gweithredu, er enghraifft, o ran y Gronfa Mynediad i Swydd Etholedig. Gwnaeth Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru gais i'r rhain fod yn eu lle ar gyfer etholiadau Senedd Cymru yn 2021 ac i gwotâu deddfwriaethol fod yn rhan o ddiwygio Llywodraeth Leol.

Rydym yn poeni'n fawr am fygythiad arall i gydraddoldeb menywod ar ffurf effaith y firws Covid-19, sydd wedi gwaethygu'n sylweddol wrth i ni fynd i'r wasg (Gwanwyn 2020). Menywod yw 80% o'r bobl a gyflogir mewn gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol yng Nghymru. Menywod sydd ar flaen y gad o ran ymateb i'r firws fel gweithwyr iechyd, athrawon a gofawyr yn y cartref. Menywod sydd mewn perygl o gael eu caethiwo gartref gyda phartneriaid sy'n eu cam-drin. Menywod, yn enwedig y rheini sy'n anabl, yn bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig neu ar incwm isel sy'n debygol o gael eu taro galetaf gan y pandemig. Eto i gyd, rydym mewn perygl o wneud yr un camgymeriadau ag y mae'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol wedi'u hamlygu sydd angen eu hadolygu ar frys – mae cyllidebau a chynlluniau wrth gefn Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r firws yn cael eu dyrannu heb unrhyw fath o ddadansoddiad o rywedd a rhaid i hyn newid. Mae'n rhaid i 'gyllidebu ar sail rhyw' ddod yn arfer cyffredin os ydym am weld unrhyw newid sylfaenol a symudiad yn yr anghydraddoldebau yr ydym yn parhau i'w hwynebu.

Mae Oxfam Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhellion yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol, a'u hymrwymiad i Gymru sy'n rhydd o wahaniaethu ar sail rhyw, lle mae menywod amrywiol yn cyflawni eu llawn botensial, ond rhaid i ni ymdrechu'n galetach yn awr er mwyn sicrhau nad yw menywod yn cael eu rhoi dan anfantais bellach gan y pandemig – rhaid i ni weld gweithredu amserol a chytûn yn awr, gyda chyllideb ddigonol i wneud Cymru'r genedl ffeministaidd yr ydym i gyd eisiau ei gweld.

Catherine Fookes  
Cyfarwyddwr, Rhwydwaith Cydraddoldeb  
Menywod (RhCM) Cymru

Rachel Cable  
Pennaeth Oxfam Cymru

---

# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020

## CYFLWYNIAD

Mae Oxfam Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru wedi cydweithio i gyhoeddi ail Gerdyn Sgorio Ffeministaidd Cymru. Mae'r Cerdyn Sgorio yn rhoi cipolwg ar berfformiad Llywodraeth Cymru mewn sawl maes sy'n peri pryder mawr i fenywod yng Nghymru. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn y meysydd polisi hyn yn ystod y 12 mis diwethaf, ac eleni mae'n cynnwys lechyd fel maes hollbwysig ar gyfer cydraddoldeb i fenywod. Mae'n alwad i Lywodraeth Cymru weithredu i archwilio lle mae wedi gwneud cynnydd a lle mae angen mwy o waith i gyflawni cydraddoldeb ar gyfer menywod a merched yng Nghymru.

Mae RhCM Wales ac Oxfam Cymru yn cael eu harwain gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW) ac yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys egwyddorion CEDAW mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud â materion datganoledig. Dylai Llywodraeth Cymru ddangos hefyd sut y bydd yn diogelu ac yn ymgorffori hawliau menywod a sicrhau eu bod yn cael eu gwella yn y dyfodol yn ystod ac ar ôl Brexit<sup>1</sup>.

### Cymhariaeth o ganlyniadau 2019 a 2020 2019<sup>2</sup>

#### CYLLID TEG

2019: SGÔR - COCH

Cydraddoldeb o ran swyddi a chyflog, angen targedau uchelgeisiol i sicrhau gwaith teilwng i holl fenywod Cymru. Trethiant a chyllidebau, buom yn dadlau bod angen cyflwyno cyllidebu ar sail rhyw fel blaenoriaeth.

#### HAWLIAU MENYWOD BYD-EANG

2019: SGÔR - OREN

Dangoswyd arweinyddiaeth dda mewn meysydd, ond roedd angen mwy o ffocws ar gyfrifoldeb byd-eang a thargedau newid yn yr hinsawdd.

#### CYFRIFOLDEBAU GOFALU

2019: SGÔR - OREN

Gwnaed rhywfaint o gynnydd ond roedd angen mwy o waith.

#### CYNRYCHIOLAETH AC ARWEINYDDIAETH GYFARTAL

2019: SGÔR - OREN

Cafodd Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru eu graddio'n gryf yn y maes hwn, ond roedd angen mynd i'r afael â chynrychiolaeth gyfartal ar lefel llywodraeth leol ar frys.

#### RHOI DIWEDD AR DRAIS YN ERBYN MENYWOD A MERCHED

2019: SGÔR - COCH

Nodwyd darpariaeth anghyson o wasanaethau ac arafwch wrth weithredu deddfwriaeth allweddol.

#### MYND I'R AFAEL AG ANGHYDRADDOLDEBAU IECHYD RHYW

Dim data blaenorol i'w gymharu oherwydd bod hwn yn newydd am y flwyddyn hon.

TUDALEN 4

## ARGYMHELLION - DYLAI LLYWODRAETH CYMRU:

- Gynnwys egwyddorion CEDAW mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud â materion datganoledig.

# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2019/2020

Olrhain camau gweithredu Llywodraeth Cymru i wella hawliau menywod a chydreddoldeb rhywiol

ALLWEDD SGORIO: **GWYRDD = CYNNYDD SYLWEDDOL** **OREN = PETH CYNNYDD** **COCH = BRAIDD DIM CYNNYDD**

## CYLLID TEG

2019: **SGÔR - Coch**  
2020: **SGÔR - Oren**



Gwelwyd cynnydd cadarnhaol wrth i Lywodraeth Cymru dreialu dull cyllidebu ar sail rhyw. Fodd bynnag, mae angen gwaith pellach i sicrhau nad yw menywod du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) a menywod anabl yn wynebu mwy o anfantais yn y gweithle. Mae angen mynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ogystal â dosbarthiad anghyfartal cyfrifoldebau gofalu.

## CYFRIFOLDEBAU GOFALU

2019: **SGÔR - Oren**  
2020: **SGÔR - Oren**



Cynnydd cyfyngedig, ond cadarnhaol, mewn rhai ffyrdd megis cynyddu cydnabyddiaeth o werth gofal â thâl a di-dâl, ond nid yw Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru yn gwasanaethu pob menyw yng Nghymru'n gyfartal o hyd.

## HAWLIAU MENYWOD BYD-EANG

2019: **SGÔR - Oren**  
2020: **SGÔR - Oren**



Gwnaed rhywfaint o gynnydd o ran ymrwymadau. Fodd bynnag, mae angen dilyniant i'r geiriau cadarnhaol hyn bellach gan weithredu a gwneud cynnydd cryf ar lawr gwlad, yn enwedig o ran newid yn yr hinsawdd.

## CYNRYCHIOLAETH AC ARWEINYDDIAETH GYFARTAL

2019: **SGÔR - Oren**  
2020: **SGÔR - Oren**

Ychydig o gynnydd sydd wedi'i wneud ar ein hargymhellion yn 2019. Mae rhannu swyddi ym Mil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn gam ymlaen yn yr un modd ag y mae'r adolygiad o'r broses Penodiadau Cyhoeddus. Fodd bynnag, mae diffyg Cronfa Mynediad at



Swydd Etholedig ar gyfer etholiadau Senedd Cymru 2021 a dim ymrwymiad i gwtâu rhyw ac amrywiaeth yn siomedig dros ben.

## MYND I'R AFAEL AG ANGHYDRADDOLDEBAU IECHYD RHYW

2020: **SGÔR - Coch**

Mae angen gweithredu ar frys i sicrhau bod addysg a gwybodaeth am faterion iechyd ar gael i fenywod drwy gydol eu bywydau ac i fynd i'r afael â mynediad anghyson i wasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.



## RHOI DIWEDD AR DRAIS YN ERBYN MENYWOD A MERCHED

2019: **SGÔR - Coch**  
2020: **SGÔR - Oren**



Gwelwyd rhywfaint o gynnydd ac felly mae wedi cael ei raddio'n Oren, i fyny o Goch yn 2019. Fodd bynnag, mae'r system yn rhy gymhleth ar hyn o bryd ac yn cael ei chymhwysu'n anghyson i fod yn ateb safon aur.

## CYFRIFOLDEBAU GOFALU

### SGÔR: OREN

Yn 2020, fel yr adroddwyd yn 2019, mae menywod yn parhau i gyflawni cyfrifoldebau trwm ac anghyfartal o ran gofalu am blant ac aelodau eraill o'r teulu.

*"Fel ail enillwyr, neu brif ofalwyr, mae gan lawer o fenywod incwm annibynnol cyfyngedig, sy'n eu gadael yn arbennig o agored i lithro i dlodi os yw perthynas yn chwalu."*

Chwarae Teg, 2020<sup>3</sup>

### Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd gofal plant ac wedi ymrwmo i ddarparu 30 awr yr wythnos o ofal plant ac addysg gynnar a ariennir gan y llywodraeth i rieni sy'n gweithio â phlant tair neu bedair blwydd oed, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Nid yw hyn wedi newid ers y llynedd.

Mae'r cynnig wedi bod o fudd i lawer o rieni yng Nghymru gyda 84% o ddefnyddwyr yn dweud bod ganddynt fwy o incwm gwario erbyn hyn a 56% yn dweud bod ganddynt fwy o gyfleoedd i gynyddu eu hincwm<sup>4</sup>. Mae 15% o fenywod yn dweud eu bod yn gweithio mwy o oriau bellach oherwydd y Cynnig, o'i gymharu â saith y cant o ddynion<sup>5</sup>.

Serch hynny, mae dryswch o hyd ynghylch sut y mae'r cynllun yn gweithio, ac mae rhai rhieni wedi wynebu biliau annisgwyl am ofal plant yn ystod gwyliau ysgol<sup>6</sup> yn ogystal â gofal plant cofleidiol cyn ac ar ôl

oriau ysgol. Mae natur dameidiog y Cynnig presennol yn golygu y gellid gorfodi menywod i wneud mwy o swyddi rhan-amser â chyflog isel, i roi'r hyblygrwydd iddynt allu llywio'u ffordd rhwng meithrinfa'r Cyfnod Sylfaen a lleoliad gofal plant<sup>7</sup>. I fod yn effeithiol, mae'n hanfodol bod darpariaeth gofal plant ar gael ac yn fforddiadwy, yn ogystal â bod yn hyblyg<sup>8</sup>.

Yn ein Cerdyn Sgorio 2019 roeddem yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod y Cynnig yn wasanaeth seren aur drwy gynnig gofal plant fforddiadwy a hygyrch i bawb o chwe mis oed, gan ymestyn y meini prawf cymhwysedd i gynnwys rhieni nad ydynt yn gweithio a sicrhau bod teuluoedd anabl, a theuluoedd pobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael cymorth i fanteisio ar y gofal plant. Gwnaed cynnydd cyfyngedig tuag at yr argymhellion hyn yn y 12 mis diwethaf ac nid yw'r Cynnig yn gwasanaethu pob menyw yng Nghymru yn gyfartal o hyd.

Rydym yn parhau i alw am ymestyn y Cynnig i bob rhiant nad yw'n gweithio. Mae hyn yn adleisio safbwynt y Comisiynydd Plant sydd wedi pwysleisio manteision hirdymor darpariaeth blynnyddoedd cynnar o safon i blant o'r cefndiroedd tlotaf<sup>9</sup>.

Mae yna angen o hyd i gasglu gwybodaeth am y nifer sy'n manteisio ar y Cynnig wedi'i ddadgyfuno yn ôl nodweddion gwarchoddedig er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu mewn ffordd sydd yr un mor hygyrch i bawb<sup>10</sup>.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £670,000 i awdurdodau lleol er mwyn dileu'r rhwystrau i fanteisio ar y Cynnig i rieni plant ag anghenion addysgol arbennig (AAA) ac i sicrhau bod y Cynnig yn gynhwysol. Fodd bynnag, mae llawer o awdurdodau lleol wedi tanwario eu dyraniad oherwydd dryswch ynghylch sut y dylid defnyddio a dyrannu cyllid, gan alw'r canllawiau yn rhai "amwys iawn."<sup>11</sup>

*"O safbwynt hawliau plant, mae'r cynnig yn ddiffygiol gan fod yr asesiad o'r effaith ar hawliau plant a gynhaliwyd yn ystyried y manteision i'r plant a oedd i'w cynnwys yn unig, ac nid oedd yn dadansoddi'r effaith ar unrhyw grwpiau a allai gael eu heithrio, gan gynnwys nodweddion gwarchoddedig."*

Comisiynydd Plant Cymru

# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020

---

## Gofal di-dâl

Mae'r gofal di-dâl wedi'i ddsbarthu'n anghyfartal yn ôl dosbarth, oedran a rhyw: Mae menywod yn gwneud 60% yn fwy o waith di-dâl na dynion; Mae 59% o'r rhai sy'n darparu gofal teuluol yn fenywod; ac mae gan un o bob pedair menyw hŷn gyfrifoldebau gofalu<sup>12</sup>. Mae gwaith gofal di-dâl aelodau teuluoedd â rôl hanfodol o ran bod o fudd i les a datblygiad unigolion, aelwydydd a chymunedau, ac eto mae'n cael ei danbrisió'n enbyd.

Lleded Prydain Fawr, rheiny yng Nghymru sy'n treulio'r mwyaf o amser yn darparu gofal cymdeithasol. Ar gyfartaledd, treulir 42 awr y flwyddyn yn darparu gofal di-dâl i oedolion<sup>13</sup>. Ar sail y cyfraddau tâl presennol mewn sectorau cyfatebol, mae gwerth cyflog y gwaith tŷ a gofalu di-dâl yng Nghymru yn £21.6 biliwn<sup>14</sup>. Dylai gofawyr di-dâl allu cydbwysu gweithio a gofalu, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, gyda chymorth i ddychwelyd i weithio ochr yn ochr neu ar ôl gofalu<sup>15</sup>.

Rydym yn croesawu'r cam y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gymryd i ddatblygu'r cynllun gofawyr cenedlaethol newydd yn 2020, gyda'r ymrwymiad i gymryd dull rhyngadrannol drwy gynnwys safbwyntiau a phrofiadau pob math o bobl sy'n darparu gofal di-dâl yn ogystal ag arbenigwyr ar y sector.

Nodwyd yr hawl i gael seibiant yn ein Cerdyn Sgorio 2019 fel blaenoriaeth lle y mae diffyg gweithredu dybryd. Roeddem wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, erbyn 2020, ddyrannu arian i roi dewis o wasanaethau seibiant o safon i ofalwyr. Mae Cynhalwyr Cymru yn galw am "gyllid a dewis o wasanaethau o ansawdd i alluogi gofawyr i gymryd y seibiannau maen nhw eu hangen"<sup>16</sup>. Fodd bynnag, araf fu'r cynnydd yn y 12 mis diwethaf. Canfu'r ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofawyr<sup>17</sup> fod gofal seibiant yn gallu bod yn anodd cael gafael arno, bod diffyg darpariaeth addas, ac nad oes llawer o hyblygrwydd.

Ers 2017-18, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £3 miliwn o arian cylchol ar gyfer seibiant i lywodraeth leol drwy'r Grant Cynnal Refeniw, ond nid yw'r arian hwn wedi'i neilltuo ac felly mae monitro a gwerthuso gwariant awdurdodau lleol ar ofal seibiant yn hanfodol.

## Y gweithlu gofal cyflogedig

Mae gofal cymdeithasol yn sector gwerthfawr iawn i weithio ynddo. Mae'n darparu gwasanaethau hanfodol i bobl, hen ac ifanc, sydd angen cymorth, gan gyfrannu'n sylweddol at yr economi hefyd. Serch hynny, mae cyflogau isel ac oriau ansicr yn dal i nodweddu'r sector gofal. Yng Nghymru, mae 80% o'r bobl a gyflogir mewn 'gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol' yn fenywod<sup>18</sup>. Mae taer angen datblygu atebion polisi ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol sy'n cydnabod ac yn adlewyrchu ei werth economaidd gwirioneddol.

Mae cyflogau isel a chontractau ansicr yn broblem ar draws y sector gofal cyfan. Tynnodd argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg<sup>19</sup> sylw at y materion hyn a galwodd am sefydlu Fforwm Gwaith Teg gyda ffocws cychwynnol ar ofal. Mae sefydlu fforwm sy'n canolbwyntio ar ofal yn un o gyfres o argymhellion sy'n cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru ac sydd ar y cam cwmpasu dichonoldeb ar hyn o bryd<sup>20</sup>.

Mae angen buddsoddiad sylweddol yn y gweithlu gofal plant, lle cyflogir menywod yn bennaf ac yn aml ar gyflog isel. Yn 2019 roeddem wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan ddarparwyr gofal plant gyflogau ac amodau da yn ogystal â mynediad at hyfforddiant. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i weithredu eu Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar, gan gyflwyno cymwysterau newydd a chefnogi ymarferwyr gofal plant i uwchsgilio. Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn 2020 hefyd i

# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020

gofrestru'r gweithlu gofal plant gan gefnogi symudiad tuag at broffesiynoldeb a gwerthfawrogi'r gwaith pwysig y mae gofaluwr cyflogedig yn ei wneud<sup>21</sup>. Mae hyn yn gynydd cadarnhaol tuag at ein hargymhelliad yn 2019.

## ARGYMHELLION - DYLAI LLYWODRAETH CYMRU:

- Gynnig gofal plant fforddiadwy a hygyrch i bob plentyn o chwe mis oed, gan gynnwys lle nad yw'r rhieni'n gweithio;
- Rhoi mwy o eglurder ynghylch y gyllideb Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) sydd ynghlwm wrth y Cynnig Gofal Plant ac annog awdurdodau lleol i wario'r arian a ddyrennir iddynt;
- Darparu canolfannau gofal plant ar gyfer teuluoedd ceiswyr lloches;
- Monitro gwariant awdurdodau lleol ar ofal seibiant a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r cyllid;
- Bwrw ymlaen â'r cynlluniau presennol i sicrhau bod pob gweithiwr gofal yng Nghymru yn cael ei dalu'n deg a bod ganddynt fynediad at hyfforddiant a llwybrau clir ar gyfer dilyniant gyrfa os ydynt yn dymuno hynny;
- Casglu data cydraddoldeb cadarn fel rhan o'r broses o werthuso a monitro'r Cynnig Gofal Plant er mwyn sicrhau mynediad a chymhwysedd cyfartal;
- Sicrhau bod gofaluwr di-dâl yn ymwneud â chynllunio a chyflwyno polisiau a gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau.

## RHOI TERFYN AR DRAIS YN ERBYN MENYWOD A MERCHED

### SGÔR: OREN

Mae gan Lywodraeth Cymru sylfeini rhagorol yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (VAWDASV) a'i hymrwymiad i Gonfensiwn Istanbul<sup>22</sup> i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Yn gyffredinol, mae rhywfaint o gynydd wedi'i wneud yn ystod y 12 mis diwethaf ac am y rheswm hwn mae gan yr adran hon radd Oren yn gyffredinol, i fyny o Goch yn 2019.

Serch hynny, er gwaethaf addewidion gobeithiol, mae'r system yn rhy gymhleth ar hyn o bryd ac yn cael ei chymhwyso'n anghyson i fod yn ateb safon aur. Er mwyn gwireddu ei haddewid ynghylch datblygu model a wnaed yng Nghymru sy'n darparu safonau o gymorth gyda'r gorau yn y byd, mae gennym gryn ffordd i fynd o hyd i wireddu potensial a bwriad y Ddeddf yn llawn gan Lywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Mae angen mwy o weithredu gan Lywodraeth Cymru i sicrhau cyllid cynaliadwy ac i wneud yn siwr bod y Ddeddf yn cael ei chymhwyso'n gyson ym mhob lleoliad daearyddol.

Yn 2019 nodwyd sut yr oedd ein hoptimistiaeth ar gyfer y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a allai dorri tir newydd yn cael ei dymheru gan arafwch y camau gweithredu, a bod datblygiad cynlluniau a strategaethau yn hwyr. Roeddem wedi galw am ymateb gwell gan Lywodraeth Cymru i bob math o drais yn erbyn menywod ac wedi egluro sut yr oeddem yn credu y gellid cyflawni hyn.

*"Yn aml caiff dioddefwyr a goreswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol eu siomi gan system anghyson, gymhleth a thameidiog."*

Swyddfa Archwilio Cymru<sup>23</sup>



# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020

Yn fwy penodol, gwnaethom feirniadu'r diffyg cynllun gweithredu manwl gyda chyfrifoldebau a therfynau amser ar gyfer cyflawni i gyd-fynd â'r strategaeth genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016. Yn anffodus, er gwaethaf cyhoeddi Canllawiau Strategaeth Leol (2018) a Fframwaith Trawslywodraethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018-2021, mae diffyg cerrig milltir clir o hyd i fonitro cyflenwi, a methiant parhaus i gwmpasu dull trawslywodraethol llawn. Gan na chyhoeddwyd amserlenni na cherrig milltir penodol, bu'n anodd dal Llywodraeth Cymru a gwasanaethau datganoledig i gyfrif am gyflawni o fewn cyfnod penodol<sup>24</sup>. Felly, nid ydym yn credu bod digon o gynnydd wedi'i wneud eto tuag at gyflawni'r nod hwn.

Mae'r sector wedi croesawu cyhoeddi'r Canllawiau Comisiynu a gyhoeddwyd yn 2019<sup>25</sup> gyda'u diffiniad cryf o wasanaethau cymorth arbenigol. Mae'n bryd yn awr i weld y canllawiau'n cael eu cyflwyno'n effeithiol ac yn cael eu dilyn ar draws pob maes a ariennir gan Lywodraeth Cymru a llywodraeth Leol. Roedd ein Cerdyn Sgorio 2019 yn mynegi siom bod y penderfyniad i wneud y Cynghorydd Cenedlaethol yn swydd ran-amser yn gwaethygu'r oedi o ran gweithredu. Rydym yn falch o weld bod oriau ychwanegol wedi'u neilltuo i wneud y swydd hon yn swydd gyfwerth ag amser llawn. Rhaid i'r rôl hon ymgysylltu'n aml â darparwyr gwasanaethau rheng flaen a'r sector arbenigol yng Nghymru.

## Ariannu cynaliadwy

MAE DATA CYMORTH I FERCHED CYMRU AR GYFER 2018/19<sup>27</sup> YN DANGOS:

- Cyfeiriwyd 21,599 o oroeswyr at wasanaethau arbenigol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ystod y flwyddyn ac mae hyn yn gynnydd o 61% ers 2017/18;
- Cefnogwyd 20,405 o oroeswyr gan wasanaethau arbenigol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ystod y flwyddyn, sef cynnydd o 68% ers 2017/18;
- Nid oedd 512 o oroeswyr yn gallu cael eu cefnogi mewn llochesau oherwydd diffyg gofod gwasanaeth, capasiti, neu adnoddau ar yr adeg yr oedd angen cymorth arnynt, i fyny o 431 yn y flwyddyn flaenorol;
- Cefnogwyd 16,591 o oroeswyr gan wasanaethau arbenigol cam-drin domestig yn y gymuned, ond ar ddiwedd y flwyddyn roedd 239 o oroeswyr ar restr i aros am gymorth cymunedol;
- Cafodd 1,332 o oroeswyr gymorth gan wasanaethau trais rhywiol penodedig yn aelodaeth Cymorth i Ferched Cymru, ond ar ddiwedd y flwyddyn roedd 251 o oroeswyr ar restr i aros am gymorth argyfwng trais rhywiol mewn tri o wasanaethau aelodau Cymorth i Ferched Cymru.

*"Mae'r rhan fwyaf o'r sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn parhau i wynebu ansicrwydd oherwydd diffyg cyllid diogel a chynaliadwy. Mae llawer o wasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru wedi adrodd eu bod yn parhau i'w chael yn anodd cynllunio'n ddigonol ar gyfer y dyfodol oherwydd eu dibyniaeth ar gyllid blynyddol awdurdodau lleol a grantiau tymor byr ychwanegol." Cymorth i Ferched Cymru, 2020<sup>26</sup>*

# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020

Yn 2020 mae angen brys parhaus o hyd am drefnu cyllid cynaliadwy er mwyn sicrhau y gellir bodloni'r cynnydd yn y galw ar y sector, ac nad yw goroeswyr yn cael eu troi i ffwrdd o wasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod yng Nghymru.

Nododd Cynllun Blynyddol Cynghorwyr Cenedlaethol 2020-2021<sup>28</sup> fod y Grŵp Ariannu Cynaliadwy wedi'i ailsefydlu gyda chylch gorchwyl newydd i fodloni'r her allweddol o symud tuag at fodel ariannu cynaliadwy. Mae Cymorth i Ferched Cymru<sup>29</sup> wedi mapio gwybodaeth am y cyllid a'r adnoddau sy'n mynd i'r sector arbenigol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ledled Cymru, a rhoddwyd hwn i Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ariannu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn 2018. Hyd yn hyn ni fu unrhyw fapio tebyg sydd wedi cynhyrchu'r wybodaeth gyfatebol ar gyfer y sector cyhoeddus nac ar gyfer adrannau Llywodraeth Cymru. Mae data Cymorth i Ferched Cymru yn dangos y galw cyfredol am wasanaethau arbenigol ac mae wedi dogfennu'r frwydr barhaus sydd gan wasanaethau arbenigol i ddod o hyd i'r arian sydd ei angen arnynt i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, a arweinir gan anghenion, i bawb sy'n goroesi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Roedd y Cerdyn Sgorio cyntaf yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, erbyn diwedd 2019, sicrhau bod cyllid digonol ar gael i gefnogi menywod anabl. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid cyfalaf ychwanegol o £1.2 miliwn, sy'n canolbwyntio'n benodol ar gynyddu'r cymorth sydd ar gael i oroeswyr ag anghenion lluosog, ac fe groesawyd hynny. Fodd bynnag, nid yw'n glir a fydd hyn o fudd penodol i fenywod anabl<sup>30</sup>. Mae taer angen gwella ymatebion i fenywod anabl er mwyn sicrhau bod pawb sy'n goroesi'n cael yr un mynediad i atal, amddiffyn a chefnogi. Mae Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar hawliau pobl ag anableddau (UNCPRD) yn cyfeirio'n benodol at y gwahaniaethu lluosog a wynebir gan fenywod anabl ac yn galw am fesurau priodol gan lywodraethau i sicrhau bod yr angen hwn i sicrhau datblygiad, cynnydd a grymuso menywod yn llawn (Erthygl 6)<sup>31</sup>.

## Confensiwn Istanbul

Roedd Cerdyn Sgorio 2019 yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, erbyn 2020, yn cyhoeddi adroddiad yn unol â gweithdrefnau Confensiwn Istanbul yn dangos sut y mae'n cyflawni rhwymedigaethau'r Confensiwn.

Fodd bynnag, hyd yma, nid oes adroddiad o'r fath wedi'i ryddhau i'r cyhoedd sy'n dangos hyn mewn modd ystyrllon. Cytunwn â Chymorth i Ferched Cymru fod Llywodraeth Cymru, er ei bod wedi cyflwyno llawer o fesurau cadarnhaol sy'n helpu i gyflawni'r rhwymedigaethau, wedi rhoi sicrwydd llafar yn unig ynghylch bodloni'r erthyglau o fewn y Confensiwn, a cheir sawl enghraifft lle mai dim ond cydymffurfiaeth rannol sydd yna ag erthyglau'r Confensiwn ar hyn o bryd.

## Iechyd y Cyhoedd

Er gwaethaf degawdau o dystiolaeth ac ymarfer rhyngwladol gan Sefydliad Iechyd y Byd, sy'n awgrymu bod yn rhaid i Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol fod yn flaenoriaeth o ran iechyd y cyhoedd, prin fu'r ymgysylltu gan gyrrff Iechyd – ar lefel Llywodraeth Cymru, iechyd y cyhoedd a byrddau iechyd lleol<sup>33</sup>.

## Addysg

Croesewir y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn rhan orfodol

*“Mewn rhai achosion, rydym yn teimlo mai cyfyngedig yw'r gydymffurfiaeth â'r Confensiwn. O fewn cwmpas y Confensiwn mae dosbarthiad daearyddol digonol o wasanaethau arbenigol tymor byr a thymor hir sy'n hygyrch i bob menyw a'i phlant yn ogystal â darpariaeth ddigonol o ddulliau ataliol ar gyfer pob math o drais yn erbyn menywod a merched.”*  
Cymorth i Ferched Cymru<sup>32</sup>

# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020

o'r cwricwlwm newydd o 2022 ymlaen. Mae gwersi ar gydsyniad, cam-drin mewn perthynas, cydraddoldeb rhywiol a pharchu amrywiaeth a goddefgarwch yn hanfodol bwysig i sicrhau bod pob plentyn yn gallu tyfu i fyny mewn cymdeithas ddiogel a chyfartal. Rhaid i hyn gael ei gyflawni yn unol â'r Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan o Ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015<sup>34</sup>.

## ARGYMHELLION - DYLA LLYWODRAETH CYMRU:

- Gydweithio ag arbenigwyr yn y sector, a phobl â phrofiad byw ym mhob math o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, er mwyn llywio ei strategaeth a'i fframwaith traws-lywodraethol diwygiedig a sicrhau bod yna ymrwymiad lefel uchel i sicrhau bod y Ddeddf wedi'i gwreiddio mewn portffolios;
- Blaenoriaethu'r broses o gyflawni ei hymrwymiad i ddarparu model ariannu diogel a chynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gan gynnwys egluro sut y bydd arian ychwanegol o fudd i fenywod ag anghenion cymhleth;
- Ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (UNCPRD) a sicrhau ei fod yn cael ei gydnabod a'i weithredu'n llawn drwy bolisïau a gwasanaethau i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;
- Darparu gwybodaeth gynhwysfawr a pherthnasol mewn amrywiaeth o fformatau ar y casgliad llawn o wasanaethau sydd ar gael i helpu dioddefwyr a goreswyr i lywio'u ffordd drwy system dameidiog y gwasanaethau presennol;
- Monitro'r broses o weithredu'r Dull Addysg Gyfan yn llawn;
- Sicrhau bod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi arweiniad i iechyd y cyhoedd a byrddau iechyd i roi blaenoriaeth i atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a gwella ymatebion i oroeswyr a chyflawnwyr;
- O fewn blwyddyn, cyhoeddi adroddiad yn unol â gweithdrefnau Confensiwn Istanbul sy'n dangos bod rhwymedigaethau'r Confensiwn yn cael eu cyflawni.

## CYNRYCHIOLAETH GYFARTAL AC ARWEINYDDIAETH SGÔR: OREN

Roedd Cerdyn Sgorio 2019 yn croesawu'r ffaith bod Prif Weinidog Cymru wedi penodi Cabinet cytbwys o ran rhywedd. Er hynny, fe wnaethom bwysleisio bod angen gwneud mwy i gyflawni'r nod datganedig o gael Llywodraeth Cymru ffeministaidd ac yn enwedig i fynd i'r afael â'r bylchau difrifol rhwng y rhywiâu sy'n parhau ar lefel llywodraeth Leol. Roeddem yn awyddus i weld ymrwymadau rheng uchaf Llywodraeth Cymru yn troi'n gamau a chynnydd ystyrion ers Ebrill 2019.

YN 2019, GWNAETHOM ALW AR LYWODRAETH CYMRU I SICRHAU 50:50 YN SENEDD CYMRU. YN 2020<sup>35</sup>:

- Mae 47% o ACau/ASau yn fenywod (dim newid ers 2019)

# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020

- Mae 35% o Aelodau Seneddol Cymru yn fenywod (i fyny o 28% yn 2019)
- Mae 57% o Weinidogion Cabinet Llywodraeth Cymru yn fenywod (dim newid o 2019)

## Roedd hanes arweinyddiaeth mewn Llywodraeth Leol yn 2019 yn arbennig o dywyll, ond rydym wedi gweld newid cadarnhaol ar rai dangosyddion<sup>36</sup>:

- Mae 28% o gynghorwyr lleol yn fenywod (dim newid ers 2019)
- Mae 23% o arweinwyr Cynghorau'n fenywod (i fyny o 18% yn 2019)
- Mae 36% o Brif Weithredwyr Cynghorau'n fenywod (i fyny o 18% yn 2019)
- Mae 32% o Aelodau Cabinet Cynghorau'n fenywod (i fyny o 27% yn 2019)

Mae'n galonogol gweld y gwelliant yn y gyfran o fenywod mewn swyddi arweinyddiaeth mewn cynghorau lleol a chynnydd yn nifer yr Aelodau Seneddol sy'n fenywod, fodd bynnag ni ellir priodoli'r un o'r datblygiadau hyn i gamau gweithredu Llywodraeth Cymru ac rydym yn parhau i fod yn hynod siomedig nad oes menyw BAME wedi'i hethol i Senedd Cymru erioed.

## Cwotâu â Rhwymedigaeth Gyfreithiol

Yn 2017, dim ond 28% o'r bobl a gafodd eu hethol yn gynghorwyr oedd yn fenywod, ac roedd yn destun gofid bod 33% o wardiau heb unrhyw ymgeiswyr benywaidd yn sefyll o gwbl<sup>37</sup>. Roedd Cerdyn Sgorio 2019 yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru integreiddio cwotâu rhywiau yn y system etholiadol fel bod pob plaid wleidyddol yn cynnig o leiaf 50% o ymgeiswyr benywaidd erbyn 2021. Nid yw hyn wedi digwydd hyd yma.

Mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (y Bil)<sup>38</sup> yn un o gamau arfaethedig Llywodraeth Cymru i wella cynrychiolaeth o blith grwpiau a dangynrychiolir, gan gynnwys menywod. Er ein bod yn croesawu elfennau a gynigir yn y Bil (er enghraifft, rhannu swydd),

mae rhai darpariaethau cadarnhaol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth ar goll, gan gynnwys: cwotâu rhyw â rhwymedigaeth gyfreithiol gyda sancsiynau; gwrthod unrhyw gabinet gwrywaidd yn unig; a Chronfa Mynediad i Swydd Etholedig i alluogi menywod anabl, menywod BAME a'r rheini o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol i sefyll.

### Mae'r dystiolaeth sy'n ategu cwotâu yn glir:

- Mae ymchwil yn dangos mai cwotâu yw'r "dull unigol mwyaf effeithiol ar gyfer creu "llwybr carlam" ar gyfer cynrychiolaeth menywod mewn cyrff etholedig ar gyfer llywodraeth."<sup>40</sup>;
- Ymhlith yr ugain gwlad yn y Sefydliad ar gyfer Diogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop (OSCE) sy'n nodi'r twf mwyaf yn y gyfran o fenywod mewn seneddau yn ystod y degawd diwethaf ... roedd eu hanner wedi cyflwyno cwotâu cyfreithiol. Ar y llaw arall, ymhlith yr ugain o wledydd ar y OSCE lle mae'r twf yn arafach, nid oedd yr un ohonynt wedi gweithredu cwotâu cyfreithiol<sup>41</sup>;

*"Bydd rhannu swyddi yn galluogi rhai menywod i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth na fyddai fel arall, ond mae'r dystiolaeth fyd-eang yn gwbl glir mai cwotâu etholiadol yw'r rhai mwyaf effeithiol o ran cynyddu cyfranogiad menywod mewn gwleidyddiaeth."*  
Yr Athro Sarah Childs, 2020<sup>39</sup>

- Mae cefnogaeth ryngwladol - mae amrywiol sefydliadau rhyngwladol, gan gynnwys CEDAW, Llwyfan Beijing ar gyfer Gweithredu, yr UE a Chyngor Ewrop yn cefnogi cwotâu;

# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020

- Mae Iwerddon wedi defnyddio cwotâu yn llwyddiannus gan ei gwneud yn ofynnol bod o leiaf 30% o ymgeiswyr pob plaid yn genedlaethol yn fenywod (gan godi i 40% ar ôl saith mlynedd). Cynyddodd canran yr ymgeiswyr benywaidd 90% yn etholiad 2016 o gymharu ag etholiad 2011, gyda chynnydd cyfatebol o 40% yn nifer y menywod a etholwyd – 35 yn 2016 o gymharu â 25 yn 2011<sup>42</sup>;
- Argymhellodd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad 2017, a benodwyd gan Lywydd Senedd Cymru, y dylid cyflwyno cwotâu rhyw rhagnodol ar gyfer etholiadau 2021. Rhoddodd hyn gyfle i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i sicrhau cynrychiolaeth amrywiol a chyfartal.

Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru ac Oxfam Cymru o'r farn bod cwotâu â rhwymedigaeth gyfreithiol, gyda sancsiynau neu gymhellion, yn hanfodol er mwyn sicrhau nad ydym yn parhau i weld gostyngiad yn nifer Aelodau'r Senedd sy'n fenywod a etholir i Senedd Cymru, a pharhad y niferoedd isel o fenywod a etholir mewn cynghorau lleol. Felly, dylai'r Bil a'r ddeddfwriaeth arfaethedig ar ddiwygio Senedd Cymru gynnwys cwotâu.

## Rhannu swyddi a hyblygrwydd

Mae cynigion y Bil a fyddai'n caniatáu rhannu swyddi yn gam cadarnhaol, er bod yn rhaid i hyn fod ar gael ar draws y cyngor, o arweinwyr ac aelodau gweithredol a dylai gynnwys y rhai ar y meinciau cefn hefyd. Eleni, cyhoeddwyd estyniad i'r darpariaethau presennol ar gyfer rhannu swyddi yn y Bil i rolau uwch eraill, megis cadeiryddion pwyllgorau<sup>43</sup>, ac rydym yn croesawu hynny. Nodwn, law yn llaw â datblygiad y Bil, fod y Bwrdd Taliadau annibynnol wedi cyhoeddi cynigion o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad<sup>44</sup>. Mae'r rhain yn cynnwys Aelodau'r Senedd (ASau) (Aelodau'r Cynulliad (ACau) gynt), yn cael arian ychwanegol ar gyfer gofal plant gyda chymorth ychwanegol yn cael ei gynnig i ASau anabl a'r rhai ar absenoldeb rhiant sy'n gam cadarnhaol.

Dywedodd y Fonesig Dawn Primarolo, Cadeirydd y Bwrdd Taliadau, mai nod y cynigion oedd "cyfrannu at sicrhau amrywiaeth o fewn aelodaeth y Senedd, a fydd yn ei dro yn sicrhau gwell cynrychiolaeth i bobl Cymru".

Cefnogwn alwad ddiweddar Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar i gynghorwyr ar absenoldeb rhiant gael rhywun wedi'i dalu i gefnogi a chwblhau eu gwaith achos yn eu wardiau<sup>45</sup>.

## Hyrwyddo mynediad i Lywodraeth Leol

Yn 2019, fe wnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i sefydlu Cronfa Mynediad i Swydd Etholedig mewn pryd ar gyfer etholiadau 2021 i sicrhau bod menywod anabl, menywod BAME a menywod ag unrhyw rai o'r nodweddion gwarchoddedig yn gallu cael mynediad i swydd wleidyddol. Mae mynediad i gyllid i alluogi pobl i fod yn gynrychiolwyr etholedig yn hanfodol – mae cynghorwyr benywaidd anabl yn fwy tebygol o brofi gwahaniaethu lluosog fel menywod ac oherwydd eu hanabledd<sup>46</sup>. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu'r gronfa hon cyn etholiadau llywodraeth leol 2022<sup>47</sup> sy'n gadarnhaol. Fodd bynnag, rydym yn hynod siomedig nad yw ar gael ar gyfer etholiadau Senedd Cymru yn 2021.

*"Dylai mwy o arian fod ar gael i grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli a dylai cwotâu gael eu cyflwyno ar gyfer pob haen o lywodraeth leol. Ni fydd cynyddu amrywiaeth mewn llywodraeth leol yn digwydd ar ei ben ei hun, mae'n rhaid i chi ei orfodi."* Aelod, RhCM Cymru

# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020

## ARGYMHELLION - DYLAID LLYWODRAETH CYMRU:

- Sicrhau bod Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a'r ddeddfwriaeth arfaethedig ar ddiwygio Senedd Cymru yn cynnwys darpariaethau ar gwtâu rhyw ac amrywiaeth â rhwymedigaeth gyfreithiol;
- Sefydlu Cronfa Mynediad i Swydd Etholedig mewn pryd ar gyfer etholiadau 2021;
- Diwygio'r Bil Llywodraeth Leol i'w gwneud yn glir bod yn rhaid i rannu swyddi fod ar gael i bawb, gan gynnwys y rhai ar y meinciau cefn;
- Cyflwyno cymorth â thâl i gwblhau gwaith achos fel rhan o'r cynnig absenoldeb rhiant i gynghorwyr, ynghyd â'r darpariaethau presennol ar gyfer absenoldeb mamolaeth;
- Erbyn 2020 rhoi cynllun gweithredu ar waith i gynyddu cyfranogiad menywod BAME mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol;
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gasglu a chyhoeddi data amrywiaeth gan bob ymgeisydd.

## HAWLIAU MENYWOD BYD-EANG SGÔR: OREN

Nod Cymru yw bod yn genedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Mae hwn yn un o'r saith nod sydd wedi'u hymgorffori yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>48</sup>. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru weithio tuag at Gymru sydd 'yn genedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried p'un a yw hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at les byd-eang.'

### Ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Er bod Llywodraeth y DU yn rheoli polisi lloches a mudo, mae gweinyddiaethau olynol Cymru wedi cefnogi integreiddio ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid o'r eiliad maen nhw'n cyrraedd Cymru, gan gynnwys mynediad at ofal iechyd am ddim. Mae'r syniad o 'genedl noddfa' i'w ganmol. Mae agwedd ragweithiol tuag at ailgartrefu ffoaduriaid, ochr yn ochr â chymunedau a phob un o'r 22 awdurdod lleol, wedi helpu Cymru i groesawu 1,307 o ffoaduriaid gan gynnwys 88 o dan y Cynllun Ailgartrefu Plant sy'n Agored i Niwed<sup>49</sup>.

Mae Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid wedi cymeradwyo 'Cenedl Noddfa – Cynllun Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid' Llywodraeth Cymru, a lansiwyd ym mis Ionawr 2019<sup>50</sup>. Fodd bynnag, er gwaethaf gweledigaeth a nodau cryf y cynllun, mae'r cynnydd mewn rhai meysydd wedi bod yn araf ac mae sefydliadau cymorth rheng flaen yn galw am ei gryfhau. Codwyd amrywiaeth o bryderon; er enghraifft, mae diffyg gofal plant yn rhwystr parhaus i fenywod sy'n dymuno cael mynediad i ddosbarthiadau Saesneg fel Ail Iaithe (ESOL). Nid yw Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru yn cynnwys pobl sy'n ceisio lloches, neu'r rheini sy'n ddi-waith, gan effeithio'n anghymesur ar fenywod sy'n ceisio lloches a menywod sy'n ffoaduriaid. Dylid ailedrych ar hyn fel mater o frys.

Yn y gymuned sy'n ceisio lloches, nid yw anghenion menywod yn cael eu cydnabod yn glir bob amser, er enghraifft, mae menywod mudol yn wynebu mwy o risg o drais a cham-fanteisio. Ar lefel y DU, mae'n gadarnhaol bod y Swyddfa Gartref, yn 2019, wedi cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar gam-drin domestig, sy'n cryfhau'r amddiffyniad sydd ar gael i fenywod sy'n ceisio lloches sydd mewn perygl o ddiodef cam-drin domestig – gan ganiatáu iddynt gael mynediad i lety lloches arbenigol a gwasanaethau cymorth cysylltiedig. Fodd



# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020

---

bynag, dim ond i fenywod sydd â hawl i gael cymorth lloches mae mynediad ar gael. Ni ddarperir lloches ar gyfer menywod Nad yw Cronfeydd Cyhoeddus ar gael iddynt (NRPF) na menywod y mae eu Hawliau Apêl wedi eu Disbyddu (ARE) sydd mewn sefyllfaoedd byw ansicr. Roedd yr adroddiad Women for Refugee Women<sup>51</sup> (y bu nifer o sefydliadau yng Nghymru yn cyfrannu ato) yn tynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu menywod anghenus ymhlith ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at nifer y menywod yr ymosodwyd arnynt yn rhywiol neu a orfodwyd i fod mewn perthynas nad oedden nhw'n dymuno bod ynddi oherwydd NRPF.

## Datblygu rhyngwladol

Gwnaed rhywfaint o gynnydd yn y maes hwn yn ystod y 12 mis diwethaf o ran ymrwymadau. Fodd bynnag, mae angen dilyn y geiriau cadarnhaol hyn yn awr gyda gweithredu a chynnydd cryf ar lawr gwlad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei strategaeth ryngwladol newydd ar gyfer Cymru<sup>52</sup>, sy'n cynnwys sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang fel un o'i huchelgeisiau craidd. Rhaid ystyried yr uchelgais hon wrth wneud penderfyniadau masnachu neu benderfyniadau hyrwyddo eraill, fel bod lleisiau menywod, a'r effaith ar fenywod, yn ystyriaeth mewn penderfyniadau o'r fath. Mae'n hanfodol cynnwys arbenigedd ym maes cydraddoldeb yn y timau cysylltiadau rhyngwladol a masnach er mwyn mynd i'r afael â rhyw a rhyngblethedd mewn masnach a buddsoddi rhyngwladol. Croesewir y ffaith bod rhyw a chydraddoldeb yn cael eu cynnwys ond, mae'n ymddangos nad oes adnoddau ychwanegol ar gyfer hyn ac mae cwestiynau'n parhau ynghylch sut y caiff ei brif ffyrddio.

Hyd yma, mae cyfraniad Llywodraeth Cymru at ddatblygu rhyngwladol wedi'i ddarparu'n bennaf drwy ei rhaglen Cymru o blaid Affrica, sy'n cefnogi prosiectau sydd o fudd i gymunedau yng Nghymru ac yn Affrica. Ymddengys bod hyn yn parhau i weithio'n dda yng Nghymru: mae gan y sector gyfran uchel o fenywod mewn rolau arwain; a sefydliadau'n mynd ati'n fwriadol i fonitro cyfranogiad menywod; wedi recriwtio mwy o fenywod ar eu byrddau ac wedi rhoi polisiau ar waith i helpu menywod i aros mewn gwaith. Mae'n anodd asesu'r effaith ar fywydau menywod yn Affrica ac er bod cynnydd o ran menywod mewn rolau arwain yn Uganda, mae tystiolaeth yn awgrymu bod angen gwneud llawer mwy i godi ymwybyddiaeth o gam-drin yn y cartref a'i effaith ar hunaniaeth, hunan-barch a hyder. Er enghraifft, gellid darparu hyfforddiant i weithwyr datblygu yn Uganda i ddod yn hwyluswyr i gymunedau sensitif ynghylch Deddf Trais yn y Cartref 2010 Llywodraeth Uganda<sup>53</sup> i godi ymwybyddiaeth ac atal cam-drin domestig ar lawr gwlad.

Mae cred yn y sector datblygu rhyngwladol bod Cymru ar ei hôl hi o gymharu â gwledydd tebyg o ran cyllideb a strategaeth ar gyfer datblygu rhyngwladol, ac nad yw'r nod o gyfrifoldeb byd-eang yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael effaith amlwg eto. Mae hwn yn gyfle y dylai Llywodraeth Cymru fanteisio arno.

## Newid hinsawdd

Mae adnoddau naturiol allweddol yn cael eu disbyddu'n gyflymach nag y gellir eu hailgyflenwi, mae amrywiaeth biolegol yn dirywio, ac nid oes gan yr un ecosystem yng Nghymru'r holl nodweddion sydd eu hangen ar gyfer cydnherthedd<sup>54</sup>. Rhaid aros i weld pa effaith a gaiff cyfyngiadau Polisi Cynllunio Cymru 2018<sup>55</sup> ar gloddio am lo, olew a nwy a ffracio.

Ym mis Ebrill 2019, datganodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd, ac ym Mai 2019, derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellid Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd am ostyngiad o 95% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050<sup>56</sup>, ond cyhoeddodd hefyd ei

# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020

huchelgais i fynd ymhellach a chyflwyno targed i gyrraedd allyriadau net sero erbyn 2050. Croesawom benderfyniad y Prif Weinidog ym mis Mehefin 2019 i wrthod adeiladu ffordd liniaru'r M4 a oedd yn ystyried anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ac yn sicrhau bod ein bywyd gwyllt a'n hamgylchedd yn cael eu diogelu.

Disgwylir i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno yn hydref 2020 i osod targed i gyrraedd o leiaf 95% o ostyngiad yn yr holl allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050.

## ARGYMHELLION<sup>57</sup> - DYLAI LLYWODRAETH CYMRU:

- Gyflwyno fframwaith monitro a gwerthuso sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad sy'n canolbwyntio'n glir ar ryw, mesurau llwyddiant, a strwythur adolygu;
- Sicrhau gofal plant am ddim i'r rhai sydd am fynychu dosbarthiadau ESOL;
- Cynnal asesiadau hawliau dynol a chydraddoldeb rhywiol o'i pholisïau masnach presennol a'r rhai sy'n datblygu;
- Buddsoddi mewn hyfforddiant ar ryw a diogelu, gan gynnwys hyfforddiant i staff masnach ryngwladol;
- Ymrwymo cyllid i gynyddu arweinyddiaeth menywod mewn prosiectau a gefnogir gan y rhaglen Cymru ac Affrica.
- Sicrhau bod targedau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cyd-fynd â gwyddoniaeth ynghylch yr hinsawdd ac egwyddorion tegwch a chyfrifoldeb byd-eang;
- Sicrhau bod gwariant cyhoeddus yn unol â chynlluniau i leihau allyriadau;
- Sicrhau bod y gwaith o ddatblygu Cynllun Cyflawni Carbon Isel 2021 yn ymgorffori cyfraniad hanfodol menywod o ran liniaru'r newid yn yr hinsawdd.

## CYLLID TEG<sup>58</sup> SGÔR: OREN

*"Mae'r gofal plant fforddiadwy a'r polisïau sy'n ymwneud â hawliau mamolaeth, tadolaeth a rhieni sydd ar gael, neu eu hansawdd, yn bwysig o ran sut mae rhieni (yn arbennig menywod) yn cymryd rhan yn y farchnad lafur."*  
Adroddiad Gwaith Teg<sup>62</sup>

### Cydraddoldeb o ran Swyddi a Chyflog

Nid yw'r darlun i fenywod a'r economi yng Nghymru yn dangos fawr o newid. Mae Chwarae Teg yn adrodd am rai newidiadau cadarnhaol diweddar ar gyfer menywod, gan gynnwys gwelliant yng nghyfraddau cyflogaeth menywod<sup>59</sup>. Serch hynny, mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi cynyddu i 14.5% yng Nghymru, cynnydd o 1% ers 2018, (ond mae'n dal i fod yn is na chyfartaledd y DU o 17.3%). Yn Nhorfaen mae'r bwlch mor llwm â 25.6%<sup>60</sup>, felly rydym yn dal i argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cosbi awdurdodau lleol nad ydynt yn adrodd ar eu bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac yn gosod targedau i gau'r bylchau. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) i weithio gyda rhanddeiliaid i wella argaeledd data wedi'i ddadgyfuno yng Nghymru<sup>61</sup>.

Mae 42% o fenywod yng Nghymru yn gweithio'n rhan-amser, o gymharu â 14% o ddyinion<sup>63</sup>. Mae 28% o fenywod yng Nghymru yn economaidd anweithgar, gan ddweud mai'r rheswm yw 'gofalu am deulu neu'r cartref', o gymharu â dim ond 7% o ddyinion sy'n economaidd anweithgar<sup>64</sup>, gan ddangos sut y gall dyletswyddau gofal di-dâl effeithio ar ymddygiad menywod yn y farchnad lafur.



# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020

Dylai pob menyw, waeth beth fo'i hil, rhywioldeb, anabledd, dosbarth, oed a ffydd, allu cyrraedd ei photensial. Yn 2019 roeddem wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth ar gyfer nodi a mynd i'r afael â'r rhwystrau i gyflogaeth sy'n wynebu menywod BAME a gosod targed ar gyfer nifer y menywod anabl mewn gwaith erbyn diwedd 2019.

Er bod cyfran y menywod o leiafrifoedd ethnig mewn cyflogaeth yng Nghymru wedi cynyddu fymryn o 48% yn 2018 i 55% yn 2019<sup>66</sup>, mae menywod BAME yn wynebu mwy o anfantais yn economi Cymru nag a brofir gan fenywod gwyn neu ddynion BAME ac felly maent yn fwy tebygol o fod mewn gwaith mwy bregus, yn ddi-waith neu mewn risg uwch o dlodi<sup>67</sup>.

Mae angen gwaith pellach i sicrhau nad yw menywod BAME ac anabl o dan fwy o anfantais yn y gweithle. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad Gwaith Teg, gobeithiwn weld dangosyddion newydd wedi'u dadgyfuno yn ôl rhyw a nodweddion gwarchoddedig eraill.

*"Does dim digon o fenywod yn mynd i mewn i broffesiynau lle mae cyflogau'n tyfu fwyaf, (technoleg yn fwyaf amlwg, ond nid technoleg yn unig) ac mae menywod yn wynebu'r broblem barhaus o seilwaith gofal annigonol a phrinder mynediad at gyfalaf." Fforwm Economaidd y Byd<sup>65</sup>*

*"Mae menywod BAME ac anabl yn wynebu rhwystrau lluosog, yn aml yn profi gwahaniaethu ar bob cam o'r broses recriwtio." RhCM Cymru<sup>68</sup>*

## Cyllidebau a threthi

Roeddem yn falch o weld bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Chynllun Gwella'r Gyllideb 2020-2021<sup>69</sup> am y tro cyntaf ochr yn ochr â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru<sup>70</sup> ym mis Rhagfyr 2019, sy'n cynnwys cynlluniau ar gyfer asesu effaith penderfyniadau cyllidebol.

Y llynedd, roeddem wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cyllidebu ar sail rhyw i helpu i bennu gwariant. Bu'r Adolygiad o Gydraddoldeb rhwng y Rhywiau yn archwilio cyllidebu ar sail rhyw ynghyd â chyllidebu ar gyfer cydraddoldeb ac argymhellodd y dylai "Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull o brif ffrydio cydraddoldeb. Bydd hyn yn llwyddiannus dim ond os caiff persbectif cydraddoldeb ei roi wrth wraidd prosesau'r gyllideb a pholisi economaidd a chyllidol hefyd."<sup>71</sup>

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu dull cyllidebu ar sail rhyw fel rhan o beilot dwy flynedd y Cyfrifon Dysgu Personol (PLA), a lansiwyd ym mis Medi 2019. Mae'r prosiect hwn yn cefnogi oedolion cyflogedig mewn swyddi â chyflog isel a sgiliau isel i newid gyrfa neu symud i gyflogaeth ar lefel uwch mewn sectorau â blaenoriaeth gydag effeithiau rhyw hysbys. Mae Cynllun Gwella'r Gyllideb yn nodi sut y byddant yn gweithredu cyllidebu ar sail rhyw o fewn darpariaeth y peilot a bydd gwerthusiad o'r cynllun peilot presennol gyda lens rhyw yn llywio'r broses o gyflwyno cynllun peilot y Cyfrifon Dysgu Personol yn ehangach.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol megis Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE) wrth iddynt ddatblygu eu dull o asesu effaith penderfyniadau cyllidebol yn y tymor hwy<sup>72</sup>. Fodd bynnag, yn ei ffurf bresennol, nid yw BAGE yn addas i'r diben.

Mae'n hanfodol bod cylch gorchwyl BAGE yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn glir ac yn cefnogi ymgysylltiad amserol ac ystyrion ag aelodau yn ystod asesiadau effaith ar gyfer pob cynnig gwariant.

## Treth

Ym mis Tachwedd 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r trydydd mewn cyfres o ddiweddariadau blynyddol ar gynigion tymor hwy i ddatblygu trethiant lleol fel rhan o fframwaith cyllid llywodraeth leol ehangach. Ar

*"Nid yw'r fforymau presennol i helpu i ymgysylltu ag arbenigwyr, megis Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb, yn gweithio'n effeithiol." Ail Gam yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol<sup>73</sup>*

# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020

hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn archwilio dulliau gwahanol gan edrych yn rhwyngwladol ar yr enghreifftiau gorau (er enghraifft, treth gwerth tir, treth incwm lleol).

Mae pwerau trethu newydd i Gymru yn eiliad arwyddocaol mewn datganoli – mae'n adeg amserol i Lywodraeth Cymru ddatblygu dulliau o ddadansoddi effaith penderfyniadau trethiant ar ryw a mynd i'r afael â diffygion yn y broses gyllidebu. Er enghraifft, mae bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru yn effeithio ar fenywod sy'n gweithio'n rhan-amser fwyaf, felly gallai cynnydd mewn trethiant gael effaith niweidiol ar fenywod sydd prin yn cael deupen llinyn ynghyd nawr.

Yn 2019 roeddem yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu adnoddau ar gyfer dadansoddi effaith unrhyw dreth incwm newydd i Gymru a phenderfyniadau trethu eraill ar fenywod yng Nghymru, ac mae hyn yn parhau'n wir yn 2020. Mae newidiadau nawdd cymdeithasol a threth diweddar wedi taro menywod galetaf gydag oddeutu 80% o'r arbedion a amcangyfrifwyd wedi dod o bocedi menywod<sup>74</sup>. Mae'n hanfodol bod dadansoddiad trwyadl o effaith treth incwm newydd Cymru a phenderfyniadau trethu eraill ar fenywod yng Nghymru.

Yn 2019 fe wnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ei phwerau llunio polisi i gyflwyno system Dreth Gyngor flaengar. Mae lefelau'r Dreth Gyngor wedi codi'n gynt yng Nghymru nag yn yr Alban a Lloegr dros y degawd ddiwethaf, gan gynyddu'r baich ar aelwydydd incwm is. Fodd bynnag mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i awdurdodau lleol gynnal y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, sydd yn debygol o fod wedi bod o fudd i fenywod mewn aelwydydd tlotach. Gall gostyngiadau ar gyfer gofalwyr fod o fudd i fwy o fenywod hefyd.

## ARGYMHELLION - DYLA I LLYWODRAETH CYMRU:

- Osod targed i leihau'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau o hanner – i 7% – erbyn 2028;
- Gosod targed ar gyfer nifer y menywod anabl mewn gwaith erbyn diwedd 2020;
- Monitro ac adrodd yn flynyddol ar effeithiolrwydd y Cynlluniau Gweithredu Economaidd a Chyflogadwyedd a'r Contract Economaidd o ran lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ac o ran ethnigrwydd ac anabledd;
- Ei gwneud yn ofynnol yn gyfreithiol a gorfodi'r holl gyrff cyhoeddus a restrir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i adrodd ar eu bylchau cyflog rhwng y rhywiau ynghyd â choladu a chyhoeddi bylchau cyflog ethnigrwydd ac anabledd;
- Ei gwneud yn ofynnol i bob busnes yng Nghymru sy'n defnyddio cymorth busnes ddarparu gwybodaeth am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn yr un modd â chyrrff cyhoeddus a sicrhau eu bod yn dangos ymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb i bawb;
- Integreiddio dull prif ffrydio cydraddoldeb ar draws pob cyllideb cyn gynted â phosibl;
- Datblygu adnoddau ar gyfer dadansoddi effaith unrhyw benderfyniadau trethiant ar fenywod yng Nghymru gan gynnwys buddsoddi mewn capasiti o ran data i alluogi adrodd ar gynnydd mewn dangosyddion allweddol;
- Diwygio a gwella cylch gorchwyl Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE);
- Defnyddio ei bwerau llunio polisi i gyflwyno system Dreth Gyngor flaengar.

## MYND I'R AFAEL AG ANGHYDRADDOLDEBAU IECHYD RHYW SGÔR: COCH

Mae iechyd a gofal cymdeithasol yn chwarae rhan mewn tlodi menywod yng Nghymru<sup>75</sup>. Er eu bod yn byw'n hirach na dynion, mae gan fenywod gyfran uwch o gyflyrau iechyd hirdymor ac mae cyfran uwch yn dweud bod eu gweithgareddau bob dydd yn cael eu cyfyngu gan iechyd gwael<sup>76</sup>. Yn ogystal, mae diffyg dealltwriaeth yn aml o'r problemau iechyd penodol a brofir gan fenywod a merched<sup>77</sup>.

Gall agweddau tuag at fenywod wrth drafod eu symptomau meddygol fod yn seiliedig ar ystrydebau hen ffasiwn o fenywod fel pobl 'hysterig' a 'gwan'; ar yr un pryd mae symptomau meddygol eraill sy'n peri gofid yn cael eu normaleiddio (er enghraifft, poen pelfis, iechyd meddwl sy'n cael ei beri gan hormonau, pyliau o wres, ac ati)<sup>78</sup>. Mae'r cyfuniad hwn o ragfarn anymwybodol a normaleiddio materion meddygol sy'n wynebu menywod yn arwain at barhad menywod yn dioddef yn dawel ac oedi annerbyniol mewn diagnosis<sup>79</sup>. Mae cyflyrau iechyd sy'n effeithio ar fenywod yn bennaf wedi denu llai o arian ar gyfer ymchwil yn y gorffennol, gyda chamddiagnosis ac oedi gyda diagnostig yn rhemp a chanlyniadau triniaeth yn is na'r disgwyl<sup>80</sup>. Nid yw cyhoeddiad Llywodraeth Cymru 'Cymru Iachach'<sup>81</sup> yn gwneud unrhyw gyfeiriad nac argymhellion penodol o ran iechyd menywod.

Mae gan Lywodraeth Cymru a chwmnïau sy'n cynnal treialon clinigwyr gyfrifoldeb i sicrhau bod treialon clinigol yng Nghymru yn recriwtio'r un nifer o fenywod â dynion, ac nad yw modelau diagnostig ar gyfer cyflyrau sy'n effeithio ar fenywod a dynion yn seiliedig ar symptomog gwrywaidd yn unig (er enghraifft, clefyd y galon, trawiad ar y galon, awtistiaeth, ymlediad aortig abdomenol)<sup>82</sup>.

### Sicrhau nad yw iechyd menywod gydol oes yn bwnc tabŵ

Mae'n hanfodol nad yw iechyd menywod yn cael ei archwilio drwy brism mamolaeth yn unig, ond bod persbectif bywyd cyfan yn cael ei ystyried. Yn aml, ystyrir bod materion iechyd menywod yn bwnc tabŵ. Fodd bynnag, mae angen i iechyd gynaecelegol, yn enwedig materion sy'n ymwneud â'r mislif, gael eu trafod yn agored a chael sylw drwy addysg gynnar a chodi ymwybyddiaeth. O 2022 bydd lles mislif gydol bywyd yn ddewisol ar y cwricwlwm newydd i ysgolion. Fodd bynnag, fel mater sy'n effeithio ar gyfran mor fawr o'r boblogaeth, dylai fod yn elfen orfodol ym Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn y cwricwlwm newydd i ysgolion<sup>83</sup>. Trafododd Pwyllgor Deisebau Senedd Cymru hyn ym mis Ionawr 2020 a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg i'w gynnwys yn y datganiadau 'Beth sy'n bwysig' yn y cwricwlwm newydd<sup>84</sup>.

Mae'n hanfodol bod unrhyw weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yn gallu cael gafael ar wybodaeth gywir sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar y mislif. Er gwaethaf canllawiau NICE a gyhoeddwyd yn 2015, mae llawer o fenywod yn dal i gael cynnig cyffuriau gwrth-iselder yn hytrach na therapi amnewid hormonau (HRT)<sup>85</sup>.

### Mynediad tameidiog ac anghyson at wasanaethau gofal iechyd

Dylai pob menyw yng Nghymru gael yr un cyfle i fanteisio ar y gwasanaethau gofal iechyd sydd eu hangen arnynt, waeth beth fo'u lleoliad daearyddol a demograffeg arall.

Nid oes gan fenywod anabl sy'n byw yng Nghymru fynediad cyfartal i ofal iechyd, ac mae pobl anabl yn fwy tebygol o farw'n iau, profi anghydraddoldebau iechyd a chael cyflyrau

# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020

iechyd o bwys, o'u cymharu â phobl eraill<sup>86</sup>. Yn ystod yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol, daeth problem triniaeth gyfartal a diffyg ymwybyddiaeth o gydraddoldeb gan weithwyr iechyd proffesiynol yn arbennig o amlwg ymhlith rhanddeiliaid LGBT+<sup>87</sup>. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau y gall menywod sy'n wynebu anghydraddoldebau lluosog gael gafael ar wasanaethau iechyd ar sail gyfartal.

Nid oes clinigau comesgoriad rheolaidd pwrpasol yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae ymchwil wedi dangos nad yw'r rhan fwyaf o fenywod yn teimlo bod y lefel bresennol o gefnogaeth seicolegol y maent yn ei derbyn ar ôl dioddef comesgoriad<sup>88</sup> yn ddigon ac mae lefelau uchel o straen ôl-drawmatig, gorbryder, ac iselder ar ôl colli beichiogrwydd yn gynnar yn gyffredin<sup>89</sup>.

Yn ogystal, ar hyn o bryd nid oes Unedau Mamau a Babanod (MBUs) amenedigol arbenigol yng Nghymru. Ar hyn o bryd, y dewis i fenywod sydd angen y gwasanaeth hwn yw aros gartref gyda'r babi (a all beri risgiau penodol ac nad yw'n cynnig gofal arbenigol 24 awr); cael eu derbyn i uned seiciatrig oedolion heb eu babanod; neu gael eu derbyn i ysbyty y tu allan i Gymru ond wedi'u gwahanu oddi wrth deulu a rhwydweithiau cymorth. Mae angen i Lywodraeth Cymru weithredu ar frys i atal menywod sydd angen y gwasanaeth hwn rhag cael eu hynysu oddi wrth gymorth digonol neu eu babanod.

Mae cymorth endometriosis mewn gwahanol rannau o Gymru yn anghyson ac yn annigonol hefyd. Er bod endometriosis yn gyflwr cronig cyffredin, mae'n amlwg bod diffyg dealltwriaeth o'r cyflwr ymysg nifer o weithwyr iechyd proffesiynol, sy'n arwain at oedi sylweddol o ran diagnosis a rheolaeth wael o symptomau sydd wedyn yn golygu canlyniadau negyddol i'r cleifion hynny yr effeithir arnynt<sup>90</sup>. Yn 2020, dim ond un ganolfan endometriosis arbenigol sydd yng Nghymru o hyd, sydd heb ddigon o le.

Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod digon o ddarpariaeth a chydraddoldeb o ran mynediad at wasanaethau iechyd arbenigol i fenywod yng Nghymru, fel blaenoriaeth. Y ffordd orau o sicrhau bod anghenion iechyd menywod yn cael eu cydnabod a'u deall yn well yw drwy gynnwys amrywiaeth o fenywod gwahanol yn y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn ag ariannu a chynllunio gwasanaethau gofal iechyd. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio ar y cyd a'u cynhyrchu gyda menywod sydd â profiad o gyflyrau iechyd amrywiol yn eu bywydau.

## ARGYMHELLION - DYLAID LLYWODRAETH CYMRU:

- Fuddsoddi mewn ymchwil o ansawdd uchel i iechyd a thriniaeth menywod;
- Sicrhau bod gan dreialon clinigol yng Nghymru raniad o 50:50 o rhwng y rhywiâu;
- Gwneud 'Llesiant Mislif Drwy Gydol Bywyd' yn elfen orfodol yn y cwricwlwm newydd i ysgolion;
- Gwneud y mislif yn destun ymgyrch bwrpasol gan iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Agor Unedau Mamau a Babanod (MBU) arbenigol yng Nghymru;
- Agor o leiaf dau glinig ar gyfer comesgoriad rheolaidd yng Nghymru;
- Sicrhau bod gwasanaeth diagnostig a rheoli Cymru gyfan yn cael ei ddarparu ar gyfer endometriosis, sy'n cynnwys darparu nyrsys arbenigol ym mhob bwrdd iechyd;
- Sicrhau bod pob ymarferydd gofal iechyd sy'n wynebu cleifion yn cael hyfforddiant gorfodol i gynnwys cyflyrau iechyd penodol a phrosesau sy'n gysylltiedig ag anghenion iechyd pobl â nodweddion gwarchoddedig;
- Gwneud y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau ar y cyd, gan gynnwys gwybodaeth ac adnoddau, yn flaenoriaeth, yn unol ag ysbryd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015.

# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020

---

## METHODOLEG

Ar gyfer pob maes polisi dan sylw, rydym ni wedi ystyried datganiadau, deddfwriaeth, polisiau ac arferion perthnasol Llywodraeth Cymru; wedi archwilio tystiolaeth gan arbenigwyr ym mhob maes; wedi dadansoddi ystadegau lle maen nhw ar gael; ac wedi siarad ag arbenigwyr ym mhob un o'r meysydd. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a rannodd eu hamser, eu gwybodaeth a'u data. Fe wnaethom raddio pob maes gan ddefnyddio amrediad goleuadau traffig (coch, oren a gwyrdd), gan nodi 'ychydig iawn' o gynnydd, 'rhywfaint' o gynnydd, neu gynnydd 'sylweddol' tuag at gydraddoldeb i fenywod a merched yng Nghymru rhwng Ebrill 2019 a Chwefror 2020.

## FFYNONELLAU

- 1 RhCM Cymru. Adroddiad cysgodol pedair gwlad y Deyrnas Unedig (2019) : <https://wenwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/02/WRC-NIWEP-WEN-Wales-Engender-CEDAW-UK-shadow-report-January-2019-2.pdf>
- 2 RhCM Cymru ac Oxfam Cymru (2019). Cerdyn Sgorio Ffeministaidd. Orlhain camau gweithredu Llywodraeth Cymru i wella hawliau menywod a chydaddoldeb rhywiol.
- 3 Chwarae Teg (2020). Cyflwr y Genedl: <https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2020/01/Cyflwr-y-Genedl-2020-1.pdf>
- 4 Llywodraeth Cymru (2019). Gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant i Gymru: blwyddyn 2. <https://llyw.cymru/gwerthusor-cynnig-gofal-plant-i-gymru-blwyddyn-2>
- 5 Ibid
- 6 Adroddiadau newyddion y BBC (Rhieni wedi'u syfrdanu gan filiau): <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-50957390> <https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/50972618>
- 7 Tystiolaeth y Pwyllgor: Cerys Furlong, Chwarae Teg: <https://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4799#A43481>
- 8 Chwarae Teg (2018). <https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2019/01/Briefing-Paper-childcare-Aug-2018.pdf>
- 9 Fel y nodwyd yn: RhCM Cymru ac Oxfam Cymru (2019). Cerdyn Sgorio Ffeministaidd. Orlhain camau gweithredu Llywodraeth Cymru i wella hawliau menywod a chydaddoldeb rhywiol.
- 10 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 1 (2018): <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/bil-cyllido-gofal-plant-cymru-asesiad-o-r-effaith-ar-gydraddoldeb.pdf>
- 11 Llywodraeth Cymru (2019). Gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant i Gymru: blwyddyn 2. <https://llyw.cymru/gwerthusor-cynnig-gofal-plant-i-gymru-blwyddyn-2>
- 12 IPPR North (Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus Gogledd Lloegr (2019) – Gwerth gwaith di-dâl. Cyflawnwyd ar ran Oxfam. Heb ei gyhoeddi.
- 13 Ibid.
- 14 Ibid
- 15 Gofalwyr Cymru (2019). Cyflwr Gofalu: <https://www.carersuk.org/files/section/6239/carers-wales-state-of-caring-2019-final.pdf>

# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020

---

- 16 Fel y nodwyd yn: RhCM Cymru ac Oxfam Cymru (2019). Cerdyn Sgorio Ffeministaidd. Olrhain camau gweithredu Llywodraeth Cymru i wella hawliau menywod a chydaddoldeb rhywiol.
- 17 Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon (2019). Gofalu am ein dyfodol - Ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofaluwr: <https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12887/cr-ld12887%20-w.pdf>
- 18 Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2018-Mehefin 2019: <https://llyw.cymru/arolwg-blynyddol-or-boblogaeth>
- 19 Gwaith Teg Cymru (2019). Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gwaith-teg-cymru.pdf>
- 20 Diweddariad Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg fel ar 18.03.20: gohebiaeth dros y ffôn
- 21 Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar 04.02.20 mewn ymateb i ohebiaeth gan Oxfam dyddiedig 20.01.20 (Jane Hutt AC. Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip)
- 22 Confensiwn ar atal a mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a thrais domestig, <https://www.coe.int/en/web/istanbul-convention/text-of-theconvention>
- 23 Swyddfa Archwilio Cymru (2019). Cynnydd o ran gweithredu'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: [https://www.audit.wales/system/files/publications/VAWDASV\\_eng.pdf](https://www.audit.wales/system/files/publications/VAWDASV_eng.pdf) November 2019 - cynnydd o ran gweithredu'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol)
- 24 Cymorth i Ferched Cymru: Briff tystiolaeth ar gyfer y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau (2020): <http://senedd.assembly.wales/documents/s98273/ELGC5-05-20%20Paper%201%20-%20Welsh%20Womens%20Aid.pdf>
- 25 Llywodraeth Cymru (2019) Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Canllawiau Statudol ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/canllawiau-statudol-ar-gyfer-comisiynu-gwasanaethau-vawdasv-yng-nghymru.pdf>
- 26 Cymorth i Ferched Cymru: Briff tystiolaeth ar gyfer y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau (2020): <http://senedd.assembly.wales/documents/s98273/ELGC5-05-20%20Paper%201%20-%20Welsh%20Womens%20Aid.pdf>
- 27 Cymorth i Ferched Cymru, Adroddiad Aelodaeth Blynyddol 2018-2019: <https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/11/Annual-Membership-Report-2018-19-FINAL.pdf>
- 28 Cynllun Blynyddol y Cynghorwyr Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2020-21 (2019): <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/cenedlaethol-gynghorwyr-cynllun-blynyddol-2020-21.pdf>
- 29 Cymorth i Ferched Cymru: Briff tystiolaeth ar gyfer y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau (2020): <http://senedd.assembly.wales/documents/s98273/ELGC5-05-20%20Paper%201%20-%20Welsh%20Womens%20Aid.pdf>
- 30 Ibid
- 31 Y Cenhedloedd Unedig, Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol Anabled: <https://www.un.org/development/desa/disabilities/convention-on-the-rights-of-persons-with-disabilities/article-6-women-with-disabilities.html#:~:text=Article%206%20%E2%80%93%20Women%20with%20disabilities,-1.&text=States%20Parties%20recognize%20that%20women,human%20rights%20and%20fundamental%20freedoms>



# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020

---

- 32 Cymorth i Ferched Cymru: Briff tystiolaeth ar gyfer y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau (2020): <http://senedd.assembly.wales/documents/s98273/ELGC5-05-20%20Paper%201%20-%20Welsh%20Womens%20Aid.pdf>
- 33 Ibid
- 34 Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan o Ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/dull-addysg-gyfan-o-fynd-ir-afael-a-thrais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-a-thrais-rhywiol.pdf>
- 35 Chwarae Teg (2020). Cyflwr y Genedl: <https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2020/01/Cyflwr-y-Genedl-2020-1.pdf>
- 36 Ibid
- 37 Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol (2018) : <https://www.electoral-reform.org.uk/latest-news-and-research/publications/lleisiau-newydd-sut-y-gall-gwleidyddiaeth-cymru-ddechrau-adlewyrchu-cymru/?lang=cy>
- 38 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=26688>
- 39 Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad Dydd Llun, 3 Chwefror 2020 <http://www.senedd.cynulliad.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=542&MId=6029>
- 40 Drude Dahlerup et al., Atlas of Electoral Gender Quotas, International Institute for Democracy and Electoral Assistance [IDEA], IPU a Phrifysgol Stockholm, 2013.
- 41 Norris, P. a Krook, M. ar gyfer OSCE, Gender equality in elected office: a six-step action plan, 2011
- 42 Brennan, M. a Buckley, F. 'The Irish legislative gender quota: the first election', Administration, cyfrol 65(2), Mai 2017
- 43 Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad Dydd Llun, 3 Chwefror 2020 13.30: <http://www.senedd.cynulliad.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=434&MId=5868>
- 44 Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad. Adolygiad o'r penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad: Ymgynghoriad ar y Penderfyniad drafft <https://www.bwrddtaliadau.cymru/penderfyniad-ar-gyfer-y-chweched-cynulliad/>
- 45 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (2019): <https://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/5757>
- 46 Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd (2018). Dadbacio Amrywiaeth: Rhwystrau a chymhellion ar gyfer sefyll fel ymgeisydd ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Adroddiad a gomisiynwyd gan Fwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- 47 Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad (2020): <http://www.senedd.cynulliad.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=542&MId=6028&Ver=4>
- 48 Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad (2020): <http://www.senedd.cynulliad.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=542&MId=6028&Ver=4>
- 49 Ystadegau mewnfudo, blwyddyn yn diwedd Medi 2019: <https://www.gov.uk/government/statistics/immigration-statistics-year-ending-september-2019>
- 50 Lansio cynllun newydd i Gymru ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches (2019) : <https://www.wired-gov.net/wg/news.nsf/articles/New+Refugee+and+Asylum+Seeker+plan+for+Wales+launched+30012019090500?open>
- 51 Women for Refugee Women, "Will I ever be safe?" Asylum-seeking women made destitute in the UK (2020). <https://www.refugeewomen.co.uk/not-safe/>

# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020

---

- 52 Llywodraeth Cymru: Strategaeth Ryngwladol i Gymru (2020): <https://llyw.cymru/strategaeth-ryngwladol-i-gymru>
- 53 Gweriniaeth Uganda: Y Ddeddf Trais yn y Cartref (2010): <https://ulii.org/ug/legislation/act/2015/2010>
- 54 Llywodraeth Cymru: Cymru a'r nodau datblygu cynaliadwy: [https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/adroddiad-atodol-i-adolygiad-y-du-o-gynnydd-tuag-at-y-nodau-datblygu-cynaliadwy-2030\\_1.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/adroddiad-atodol-i-adolygiad-y-du-o-gynnydd-tuag-at-y-nodau-datblygu-cynaliadwy-2030_1.pdf)
- 55 Llywodraeth Cymru: Polisi Cynllunio Cymru: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>
- 56 Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd: Lleihau Allyriadau'r DU Adroddiad Cynnydd 2019 i Senedd y DU <https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2019/07/CCC-2019-progress-in-reducing-uk-emissions.pdf>
- 57 Gweler hefyd argymhellion gan Atal Anhrefn Hinsawdd: Degawd i droi pethau o gwmpas (2020): <http://stopclimatechaos.cymru/wp-content/uploads/2020/03/SCCCymru-AM-briefing-A-decade-to-turn-things-around.pdf>
- 58 Yn ngherdyn sgorio 2019, roedd yr adran hon yn cynnwys Cydraddoldeb o ran Swyddi a Chyflog a Threthiant a Chyllidebau. Maent bellach wedi'u huno i fod yn Gyllid Teg.
- 59 Chwarae Teg (2020). Cyflwr y Genedl: <https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2020/01/Cyflwr-y-Genedl-2020-1.pdf>
- 60 Dadansoddiad o'r gweithle (2019). <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/adhocs/009953annualsurveyofhoursandearningsasheanalysisofjobchangersandstayers>
- 61 Chwarae Teg (2020). Cyflwr y Genedl: <https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2020/01/Cyflwr-y-Genedl-2020-1.pdf>
- 62 Gwaith Teg Cymru (2019). Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg : <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gwaith-teg-cymru.pdf>
- 63 Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/internationalmigration/adhocs/11252annualpopulationsurveyestimatesofcountryofbirthandnationalityforresidentsintheukbycombinedlocalauthoritiesandcityregions2018>
- 64 Chwarae Teg (2020). Cyflwr y Genedl: <https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2020/01/Cyflwr-y-Genedl-2020-1.pdf>
- 65 <https://www.weforum.org/reports/gender-gap-2020-report-100-years-pay-equality>
- 66 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019) Teuluoedd ac Aelwydydd. <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/families/bulletins/familiesandhouseholds/2019>
- 67 Chwarae Teg (2019). [https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2019/08/NGT-Rhwystrau-i-Fenywod-BAME\\_Adroddiad-cryno.pdf](https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2019/08/NGT-Rhwystrau-i-Fenywod-BAME_Adroddiad-cryno.pdf)
- 68 RhCM Cymru. Adroddiad Cysgodol pedair gwlad y Deyrnas Unedig (2019) : <https://wenwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/02/WRC-NIWEP-WEN-Wales-Engender-CEDAW-UK-shadow-report-January-2019-2.pdf>
- 69 Cynllun Gwella Cyllideb Llywodraeth Cymru (2019) : <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/2020-2021-naratif-y-gyllideb-ddrafft.pdf>
- 70 Llywodraeth Cymru: Cyllideb Ddrafft 2020-21 - Cyllideb i greu Cymru fwy llewyrchus, mwy cyfartal a gwyrd (2019): <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/2020-2021-naratif-y-gyllideb-ddrafft.pdf>



# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020

---

- 71 Chwarae Teg (2019) Gweithredoedd nid Geiriau: <https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2019/09/Deeds-Not-Word-full-report.pdf>
- 72 Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru 24.10.19 mewn ymateb i ohebiaeth gan y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod, dyddiedig 08.10.19 (Jane Hutt AC. Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip)
- 73 Ibid
- 74 Chwarae Teg (2020). Cyflwr y Genedl: <https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2020/01/Cyflwr-y-Genedl-2020-1.pdf>
- 75 Chwarae Teg, Sefydliad Bevan, 2019. Yn gaeth. Tlodi ymhlith menywod yng Nghymru heddiw
- 76 Llywodraeth Cymru - Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 (2019): Iechyd cyffredinol ac afiechyd oedolion Bwletin Ystadegol 10/2019 <https://llyw.cymru/iechyd-cyffredinol-ac-afiechyd-oedolion-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2017-i-mawrth-2018>
- 77 RhCM Cymru (2018). Cydraddoldeb ar gyfer Menywod a Merched yng Nghymru: ein maniffesto
- 78 Triniaeth Deg i Fenywod Cymru (FTWW) Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf trwy gyfathrebu personol 19.01.20
- 79 Criado Perez, M (2019). Invisible Women: Exposing Data Bias in a World Designed for Men. Chatto
- 80 Dusenbery M. (2017). Doing Harm - The Truth About How Bad Medicine and Lazy Science Leave Women Dismissed, Misdiagnosed, and Sick. HarperOne.
- 81 Llywodraeth Cymru - Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2019): <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/yn-gryno-cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf>
- 82 Dusenbery M. (2017). Doing Harm - The Truth About How Bad Medicine and Lazy Science Leave Women Dismissed, Misdiagnosed, and Sick. HarperOne.
- 83 Triniaeth Deg i Fenywod Cymru (FTWW)- Cyflwyno'r Achos Dros Well Gwasanaethau Mislif yng Nghymru (2019): <http://www.ftww.co.uk/wp-content/uploads/2019/07/FTWW-Making-the-Case-for-Better-Menopause-Services-in-Wales-Report.pdf>
- 84 Triniaeth Deg i Fenywod Cymru (FTWW) - Cam Cadarnhaol Arall i Addysg Mislif yng Nghymru: <http://www.ftww.co.uk/positive-steps-for-menstrual-education-in-wales/>
- 85 Triniaeth Deg i Fenywod Cymru (FTWW)- Cyflwyno'r Achos Dros Well Gwasanaethau Mislif yng Nghymru (2019): <http://www.ftww.co.uk/wp-content/uploads/2019/07/FTWW-Making-the-Case-for-Better-Menopause-Services-in-Wales-Report.pdf>
- 86 Dyfynnwyd gan Jenny Rathbone AC, Ionawr 2018 yn: RhCM Cymru (2018). Cydraddoldeb ar gyfer Menywod a Merched yng Nghymru: ein maniffesto
- 87 Chwarae Teg (2019). Map Llwybr i Gymru: <https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2019/09/Gender-Equality-a-roadmap-for-Wales.pdf>
- 88 Evans, J. (2018). Dadlau'r achos o blaid gwell gofal camesgoriad yng Nghymru : <http://www.ftww.co.uk/wp-content/uploads/2018/09/Miscarriage-report-FINAL.pdf>
- 89 Farren J, Jalbrant M, Ameye L, et al. (2016). Post-traumatic stress, anxiety and depression following miscarriage or ectopic pregnancy: a prospective cohort study. *BMJ Open* 2016; 6: e011864. doi: 10.1136/bmjopen-2016-011864
- 90 Grŵp Gorchwyl a Gorffen Endometriosis (2018). Gofal Endometriosis yng Nghymru: Darpariaeth, llwybr gofal, cynllunio'r gweithlu a mesurau ansawdd a chanlyniadau: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/endometriosis-care-in-wales-provision-care-pathway-workforce-planning-and-quality-and-outcome-measures.pdf>

# CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2020

---

## CYDNABYDDIAETH

Hoffem gydnabod gyda diolch gyfraniadau: Gofalwyr Cymru; Chwarae Teg; Triniaeth Deg i Fenywod Cymru (FTWW); Olwen Williams OBE; Atal Anhrefn Hinsawdd Cymru (SCCC); Y Comisiynydd Plant; Cymorth i Ferched Cymru; Grŵp Asiantaethau Tramor Cymru (WOAG); Llywodraeth Cymru; a Chynghrair Ffoaduriaid Cymru.

**Ysgrifennwyd gan Oxfam Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru**

## AM RWYDWAITH CYDRADDOLDEB MENYWOD (RHCM) CYMRU

Ein gweledigaeth yw Cymru heb wahaniaethu ar sail rhywedd. Ymunwch â'n cynghrair i helpu i wireddu'r weledigaeth honno.

<https://wenwales.org.uk/cy/ymuno-a-ni/>

Rhif elusen: 1145706

Rhif cwmni: 07891533

## AM OXFAM

Yn Oxfam, rydym yn rhoi lle canolog i fenywod ym mhopeth a wnawn i helpu i roi diwedd ar annhegwch tlodi i bawb, am byth.

<https://oxfamapps.org/cymru/>

Rhif elusen: 202918

**Cyhoeddwyd gan: Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru ac Oxfam Cymru**

A wnewch chi ddyfynnu'r adroddiad hwn fel: "RhCM Cymru ac Oxfam Cymru, Cerdyn Sgorio Ffeministaidd 2020, Olrhain camau gweithredu Llywodraeth Cymru i wella hawliau menywod a chydraddoldeb rhywiol"

© Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru 2020 a © Oxfam Cymru 2020.





**WEN** 

---

Wales 

---

Cymru

  
**OXFAM**  
CYMRU

WE  
WON'T  
LIVE  
WITH  
POVERTY